

Gweithdrefn Gwyno

Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg	Dyddiad: Rhagfyr 2019	Statws: J3 – Cymeradwywyd yn Rhagfyr 2019
Awdur: N Kingham	Fersiwn Flaenorol: Mawrth 2018 (CTSB)	Dyddiad Adolygu: Rhagfyr 2022

DIBEN

Diben y weithdrefn hon yw sicrhau ymateb amlasiantaeth sensitif a phroffesiynol i reoli cwynion sy'n deillio o weithredu prosesau amddiffyn plant ac oedolion amlasiantaeth Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.

Mae'r weithdrefn yn adlewyrchu'r canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae'n ymwneud â'r agweddau canlynol ar swyddogaethau diogelu amlasiantaeth y Bwrdd:

- Cynadleddau Amddiffyn Plant
- Cyfarfodydd a Chynadleddau Amddiffyn Oedolion
- Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion

Dylid cyfeirio unrhyw gŵynion eraill ynglŷn â'r prosesau amddiffyn plant neu oedolion i'r awdurdod lleol perthnasol.

Nid yw'r weithdrefn hon yn disodli gweithdrefnau cwyno asiantaethau unigol eu hunain, ac ni fydd yn mynd i'r afael â chwynion sy'n cynnwys:

- Unrhyw bryderon neu gŵynion eraill ynglŷn â phrosesau asiantaeth unigol
- Gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan asiantaethau i'r plentyn, unigolyn ifanc neu'r oedolion sy'n wynebu risg, neu
- Cwynion am ymarfer proffesiynol unigolyn neu ymddygiad swyddog sy'n mynychu cyfarfod diogelu. Cwynion mewn perthynas â chynnwys cofnod ysgrifenedig o'r gynhadledd/adolygiad ymarfer, yr ymdrinnir â nhw gan y sawl a gadeiriodd y gynhadledd/adolygiad ymarfer

Dylid gwneud y cwynion hyn trwy broses gwyno'r asiantaethau perthnasol.

PWY ALL WNEUD CWYN?

Gall unrhyw un sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r broses amddiffyn oedolion neu blant wneud cwyn a fydd yn cael ei hystyried gan y Bwrdd Diogelu. Os ystyrir nad yw'r gŵyn yn briodol, yna gwneir esboniad yn ysgrifenedig yn amlinellu'r rhesymau dros y penderfyniad hwn.

CYNADLEDDAU AMDDIFFYN PLANT

Gall rhieni, y rhai sy'n rhoi gofal a phlant/pobl ifanc sy'n gysylltiedig â phroses y gynhadledd ddymuno codi cwyn mewn perthynas ag un neu fwy o'r agweddau canlynol ar weithrediad y gynhadledd amddiffyn plant:

- Proses y gynhadledd o ran cadw at weithdrefnau;
- Y penderfyniad i gofrestru, gan gynnwys y categori;
- Y penderfyniad i beidio â chofrestru neu i ddadgofrestru.

Cam 1 - Penderfyniad gan Gadeirydd y Gynhadledd

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg wedi ymrwymo i ddatrys cwynion ar y cyfle cynharaf ac ar lefel leol, lle bo modd gwneud hyn. Gellir datrys llawer o faterion yn y cam hwn o'r broses gan Gadeirydd y Gynhadledd.

Dylid gwneud cwyn yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu'n bersonol i Gadeirydd y Gynhadledd. Bydd y Cadeirydd yn ceisio datrys y gŵyn cyn pen 10 diwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn. Os caiff y mater ei ddatrys, bydd Cadeirydd y Gynhadledd yn anfon llythyr ymateb at yr achwynydd yn cadarnhau'r penderfyniad y cytunwyd arno. Bydd Rheolwr Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol yn cadw cofnod o'r holl gŵynion a'u deilliannau.

Os nad yw'r gŵyn yn cael ei datrys, bydd Rheolwr Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol yn rhoi cyfle i'r achwynydd symud ymlaen i gam nesaf y weithdrefn ac yn gwneud atgyfeiriad at Banel Cwynion rhyngasiantaeth y Bwrdd Diogelu.

Bydd angen i'r gŵyn yn y cam hwn fod ar ffurf ysgrifenedig. Gall yr unigolyn sy'n gwneud y gŵyn fod angen cymorth i roi ei gŵyn ar ffurf ysgrifenedig (gweler Atodiad 1).

Cwynion ynqlŷn â Chadeirydd y Gynhadledd

Os yw'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad Cadeirydd y Gynhadledd, dylid ei gwneud yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu'n bersonol i Reolwr Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol, a fydd yn ceisio datrys y gŵyn cyn pen 10 diwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn.

Os caiff y mater ei ddatrys, bydd y Rheolwr dan sylw yn anfon llythyr ymateb at yr achwynydd yn cadarnhau'r penderfyniad y cytunwyd arno, ac yn hysbysu'r Adran Gŵynion berthnasol, os yw'n briodol. Os nad yw'r mater wedi'i ddatrys, yna rhoddir gweithdrefn gwyno'r awdurdod lleol ar waith.

Bydd Rheolwr Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol yn cadw cofnod o'r holl gwynion a'u deilliannau.

Cam 2 - Panel Cwynion Rhyngasiantaeth

Os na ellir datrys y gŵyn yng Ngham 1, yna bydd y Rheolwr Amddiffyn Plant yn rhannu'r holl wybodaeth am y camau a gymerwyd i ddatrys y gŵyn gyda Rheolwr Busnes y Bwrdd Diogelu.

Bydd y Rheolwr Busnes yn galw cyfarfod o'r Panel Cwynion Rhyngasiantaeth. Dylai'r panel gynnwys o leiaf dri chynrychiolydd o'r Bwrdd, a bydd un ohonynt yn gweithredu fel cadeirydd. Ni chaiff y Panel gynnwys unrhyw asiantaeth sydd wedi bod â chysylltiad uniongyrchol â'r achos sy'n cael ei glywed.

Bydd y Rheolwr Busnes yn cylchredeg yr holl ddogfennaeth berthnasol i aelodau'r panel, gan gynnwys y gŵyn wreiddiol ac unrhyw gamau sydd eisoes wedi'u cymryd i

ddatrys y gŵyn o dan Cam 1, unrhyw adroddiadau perthnasol a'r cofnod(ion) ysgrifenedig o'r cyfarfod dan sylw.

Dywedir wrth yr achwynydd am y cyfarfod, a rhoddir cyfle iddo i fynychu. Bydd hawl ganddo i gael cwmni unigolyn o'i ddewis.

Yng nghyfarfod y Panel, bydd y cadeirydd yn gyfrifol am:

- Gyflwyno'r cyfarfod ac egluro'i ddiben
- Egluro beth fydd y Panel yn ei ystyried a beth na fydd yn ei ystyried
- Amlinellu unrhyw fesurau blaenorol sydd wedi ceisio datrys y gŵyn, ac unrhyw faterion cefndir.
- Darparu cyfle i'r achwynydd wneud datganiad yn bersonol neu'n ysgrifenedig i'r panel, a galw tystiolaeth yn ymwneud â'i gŵyn.

Gall y panel a'r achwynydd alw tystion.

Mae gan y Panel 25 diwrnod gwaith o'r dyddiad y cafodd y gŵyn ei **harwyddo** i hysbysu'r achwynydd o'u canfyddiadau.

Penderfyniad y Panel

Bydd y Panel Cwynion yn penderfynu ar y canlynol:

- P'un a oedd y broses a ddilynwyd yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan;
- P'un a oedd y penderfyniad sy'n destun y gŵyn yn rhesymol yn sgil cydymffurfio â'r gweithdrefnau yn iawn;
- P'un a oedd y penderfyniad sy'n destun y gŵyn yn dilyn yn rhesymol o'r wybodaeth a oedd ar gael i'r gynhadledd wreiddiol.

Ni all y Panel Cwynion newid penderfyniad y gynhadledd, ond gall ailgynnull y gynhadledd amddiffyn plant i ystyried canfyddiadau'r Panel.

Bydd y Rheolwr Busnes yn ysgrifennu at yr achwynydd yn ei hysbysu o benderfyniad y panel. Anfonir copïau o'r llythyr at:

- Y plentyn, os yw hynny'n briodol i'w oedran a'i ddealltwriaeth
- Unrhyw riant neu unigolyn arall sy'n rhoi gofal sydd â chyfrifoldeb riant
- Cadeirydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant, yn amodol ar y gŵyn
- Rheolwr Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol
- Unrhyw unigolyn perthnasol arall sy'n gysylltiedig â'r achos a nodir gan y Panel

Os yw unrhyw ran o'r gŵyn yn cael ei chadarnhau a bod y Panel Cwynion o'r farn fod hyn wedi effeithio ar benderfyniad y gynhadledd, bydd y Panel Cwynion yn argymhell bod y Gynhadledd yn cael ei hailgynnull. Rhaid enwebu cadeirydd gwahanol ar gyfer y gynhadledd a rhaid ailgynnull y gynhadledd o fewn 15 diwrnod gwaith o benderfyniad y panel. Bydd penderfyniad gwreiddiol y gynhadledd yn aros yn weithredol hyd nes y cynhelir y Gynhadledd sy'n cael ei hailgynnull.

Os yw unrhyw ran o'r gŵyn yn cael ei chadarnhau ond bod y Panel Cwynion o'r farn nad yw hyn wedi effeithio ar benderfyniad y gynhadledd, gall wneud argymhellion ar gyfer dysgu yn y dyfodol, gan gynnwys codi'r mater yng nghyfarfod yr Is-grŵp Sicrhau

Ansawdd, neu ynglŷn â materion penodol i fynd i'r afael â nhw mewn unrhyw gynhadledd ddilynol.

Mewn rhai achosion, gall achwynwyr godi pryderon ynghylch asiantaethau unigol yn ystod cyfarfod y Panel; pe bai hyn yn digwydd a bod y wybodaeth a ddarparwyd yn codi pryderon ynghylch ansawdd ymarfer o fewn yr asiantaeth honno, bydd Cadeirydd y Panel yn trafod y rhain gydag uwch reolwr dynodedig yr asiantaeth dan sylw ar unwaith yn dilyn cyfarfod y Panel.

Bydd yr holl gŵynion ynglŷn â chynadleddau yn cael eu hadrodd i'r Is-grŵp Sicrhau Ansawdd.

CYFARFODYDD A CHYNADLEDDAU AMDDIFFYN OEDOLION

Gall oedolyn sy'n wynebu risg, ei ofalwr neu rywun sy'n gweithredu ar ran yr oedolyn sy'n wynebu risg (twrnai, dirprwy a benodwyd gan y llys, eiriolwr proffesiynol neu unigolyn enwebedig) sy'n gysylltiedig â'r broses amddiffyn oedolion, ddymuno codi cwyn mewn perthynas ag un neu fwy o'r agweddau canlynol ar y cyfarfod neu'r gynhadledd amddiffyn oedolion amlasiantaeth:

- Proses y gynhadledd o ran cadw at weithdrefnau;
- Penderfyniad/deilliant y gynhadledd

Cam 1 - Penderfyniad gan y Cadeirydd

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg wedi ymrwmo i ddatrys cwynion ar y cyfle cynharaf ac ar lefel leol, lle bo modd gwneud hyn. Gellir datrys llawer o faterion yn y cam hwn o'r broses gan Gadeirydd y cyfarfod/gynhadledd.

Dylid gwneud cwyn yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu'n bersonol i'r Cadeirydd. Bydd y Cadeirydd yn ceisio datrys y gŵyn cyn pen 10 diwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn. Os caiff y mater ei ddatrys, bydd y Cadeirydd yn anfon llythyr ymateb at yr achwynydd yn cadarnhau'r penderfyniad y cytunwyd arno, a bydd yn hysbysu Rheolwr Amddiffyn Oedolion yr awdurdod lleol.

Os nad yw'r gŵyn yn cael ei datrys, dylai'r Cadeirydd hysbysu Rheolwr Amddiffyn Oedolion yr awdurdod lleol bod yr achwynydd yn dymuno symud i gam nesaf y weithdrefn, sef Panel Cwynion rhyngasiantaeth y Bwrdd Diogelu.

Bydd angen i'r gŵyn yn y cam hwn fod ar ffurf ysgrifenedig. Gall yr unigolyn sy'n gwneud y gŵyn fod angen cymorth i roi ei gŵyn ar ffurf ysgrifenedig (gweler Atodiad 1).

Cwynion ynglŷn â'r Cadeirydd

Os yw'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad y Cadeirydd, dylid ei gwneud yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu'n bersonol i Reolwr Amddiffyn Oedolion yr awdurdod lleol, a fydd yn ceisio datrys y gŵyn cyn pen 10 diwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn.

Os caiff y mater ei ddatrys, bydd y Rheolwr dan sylw yn anfon llythyr ymateb at yr achwynydd yn cadarnhau'r penderfyniad y cytunwyd arno, ac yn hysbysu'r Adran Gŵynion berthnasol, os yw'n briodol. Os nad yw'r mater wedi'i ddatrys, yna rhoddir gweithdrefn gwyno'r awdurdod lleol ar waith.

Cam 2 - Panel Cwynion Rhyngasiantaeth

Os na ellir datrys y gŵyn yng Ngham 1, yna bydd y Rheolwr Amddiffyn Oedolion yn rhannu'r holl wybodaeth mewn perthynas â'r gŵyn gyda Rheolwr Busnes y Bwrdd Diogelu.

Bydd y Rheolwr Busnes yn galw cyfarfod o'r Panel Cwynion Rhyngasiantaeth. Dylai'r panel gynnwys o leiaf dri chynrychiolydd o'r Bwrdd, a bydd un ohonynt yn gweithredu fel cadeirydd. Ni chaiff y Panel gynnwys unrhyw asiantaeth sydd wedi bod â chysylltiad uniongyrchol â'r achos sy'n cael ei glywed.

Bydd y Rheolwr Busnes yn cylchredeg yr holl ddogfennaeth berthnasol i aelodau'r panel, gan gynnwys y gŵyn wreiddiol ac unrhyw adroddiadau perthnasol.

Dywedir wrth yr achwynydd am y cyfarfod, a rhoddir cyfle iddo i fynychu. Bydd hawl ganddo i gael cwmni unigolyn o'i ddewis.

Yng nghyfarfod y Panel, bydd y cadeirydd yn gyfrifol am:

- Gyflwyno'r cyfarfod ac egluro'i ddiben
- Egluro beth fydd y Panel yn ei ystyried a beth na fydd yn ei ystyried
- Amlinellu unrhyw fesurau blaenorol sydd wedi ceisio datrys y gŵyn, ac unrhyw faterion cefndir.
- Darparu cyfle i'r achwynydd wneud datganiad yn bersonol neu'n ysgrifenedig i'r panel, a galw tystiolaeth yn ymwneud â'i gŵyn.

Gall y panel a'r achwynydd alw tystion.

Mae gan y Panel 25 diwrnod gwaith o'r dyddiad y cafodd y gŵyn ei **harwyddo** i hysbysu'r achwynydd o'u canfyddiadau.

Penderfyniad y Panel

Bydd y Panel Cwynion yn penderfynu ar y canlynol:

- P'un a oedd y broses a ddilynwyd yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan;
- P'un a oedd y penderfyniad sy'n destun y gŵyn yn rhesymol yn sgil cydymffurfio â'r gweithdrefnau yn iawn;
- P'un a oedd y penderfyniad sy'n destun y gŵyn yn dilyn yn rhesymol o'r wybodaeth a oedd ar gael i'r gynhadledd wreiddiol.

Ni all y Panel Cwynion newid penderfyniad y cyfarfod/gynhadledd, ond gall ailgynnull y cyfarfod/gynhadledd i ystyried canfyddiadau'r Panel.

Bydd y Rheolwr Busnes yn ysgrifennu at yr achwynydd yn ei hysbysu o benderfyniad y panel. Anfonir copïau o'r llythyr at:

- Yr oedolyn, os yw'r galluedd ganddo
- Unrhyw unigolyn arall sydd â chyfrifoldeb rhoi gofal (os nad yw'r galluedd meddwl gan yr oedolion i roi cydsyniad i rannu'r wybodaeth hon, a bod rhannu'r wybodaeth o fudd pennaf i'r oedolyn)
- Cadeirydd y Cyfarfod/Gynhadledd Amddiffyn Oedolion, yn amodol ar y gŵyn
- Rheolwr Amddiffyn Oedolion yr awdurdod lleol
- Unrhyw unigolyn perthnasol arall sy'n gysylltiedig â'r achos a nodir gan y Panel

Os yw unrhyw ran o'r gŵyn yn cael ei chadarnhau bydd y Panel Cwynion yn cyfeirio'i argymhellion i Gyfarfod/Cynhadledd Amddiffyn Oedolion sydd wedi'i ailgynnull. Rhaid enwebu cadeirydd gwahanol, a rhaid ailgynnull y cyfarfod/gynhadledd o fewn 15 diwrnod gwaith o benderfyniad y panel. Bydd penderfyniad gwreiddiol y cyfarfod/gynhadledd yn aros yn weithredol hyd nes y cynhelir y cyfarfod/gynhadledd sy'n cael ei ailgynnull.

Mewn rhai achosion, gall achwynwyr godi pryderon ynghylch asiantaethau unigol yn ystod cyfarfod y Panel; pe bai hyn yn digwydd a bod y wybodaeth a ddarparwyd yn codi pryderon ynghylch ansawdd ymarfer o fewn yr asiantaeth honno, bydd Cadeirydd y Panel yn trafod y rhain gydag uwch reolwr dynodedig yr asiantaeth dan sylw ar unwaith yn dilyn cyfarfod y Panel.

ADOLYGIADAU YMARFER PLANT AC OEDOLION

Mae'r canllawiau statudol Llywodraeth Cymru (Cyfrolau 2 a 3 o 'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl'), a gyhoeddwyd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod gan Fyrddau Diogelu broses ar waith i reoli cwynion mewn perthynas ag Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion. Mae angen i'r broses hon ystyried natur amlasiantaeth Adolygiadau Ymarfer.

Ynghylch Beth Ellir Cwyno?

Gall unrhyw unigolyn sy'n uniongyrchol gysylltiedig neu'n cael ei effeithio'n uniongyrchol yn y broses adolygu ymarfer oedolion neu blant wneud cynw a gaiff ei hystyried gan y Bwrdd. Bydd cwynion yn cael eu hystyried mewn perthynas ag un neu fwy o'r agweddau canlynol ar y broses:

- Y penderfyniad p'un ai i fwrw ymlaen ag Adolygiad Ymarfer Plant neu Oedolion ai peidio;
- Y broses a ddilynir o ran cydymffurfio â'r canllawiau statudol
- Cynnwys yr adroddiad

Cam 1 - Penderfyniad gan Gyd-Gadeiryddion Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg wedi ymrwmo i ddatrys cwynion ar y cyfle cynharaf ac ar lefel leol, lle bo modd gwneud hyn.

Dylid gwneud cwyn yn ysgrifenedig neu dros y ffôn i Gyd-Gadeiryddion Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg drwy'r Rheolwr Busnes. Bydd y Cyd-Gadeiryddion yn ceisio datrys y gŵyn cyn pen 10 diwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn. Os caiff y mater ei ddatrys, bydd y Rheolwr Busnes yn anfon llythyr ymateb at yr achwynydd yn cadarnhau'r penderfyniad y cytunwyd arno, a bydd yn hysbysu'r Cadeirydd o'r Is-grŵp Adolygu perthnasol a Chadeirydd y Panel Adolygu, os yw'n briodol.

Os nad yw'r gŵyn yn cael ei datrys, dylai'r Rheolwr Busnes hysbysu Cadeirydd Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Plant neu Oedolion y Bwrdd Diogelu bod yr achwynydd yn dymuno symud i gam nesaf y weithdrefn, sef Panel Cwynion rhyngasiantaeth y Bwrdd Diogelu.

Bydd angen i'r gŵyn yn y cam hwn fod ar ffurf ysgrifenedig. Gall yr unigolyn sy'n gwneud y gŵyn fod angen cymorth i roi ei gŵyn ar ffurf ysgrifenedig (gweler Atodiad 1).

Cam 2 - Panel Cwynion Rhyngasiantaeth

Bydd y Rheolwr Busnes yn galw cyfarfod o'r Panel Cwynion Rhyngasiantaeth. Dylai'r panel gynnwys o leiaf dri chynrychiolydd o'r Bwrdd, a bydd un ohonynt yn gweithredu fel cadeirydd. Ni chaiff y Panel gynnwys unrhyw asiantaeth sydd wedi bod â chysylltiad uniongyrchol â'r achos/adolygiad.

Bydd y Rheolwr Busnes yn cylchredeg yr holl ddogfennaeth berthnasol i aelodau'r panel, gan gynnwys y gŵyn wreiddiol ac unrhyw adroddiadau perthnasol.

Dywedir wrth yr achwynydd am y cyfarfod, a rhoddir cyfle iddo i fynychu. Bydd hawl ganddo i gael cwmni unigolyn o'i ddewis.

Yng nghyfarfod y Panel, bydd y cadeirydd yn gyfrifol am:

- Gyflwyno'r cyfarfod ac egluro'i ddiben
- Egluro beth fydd y Panel yn ei ystyried a beth na fydd yn ei ystyried
- Amlinellu unrhyw fesurau blaenorol sydd wedi ceisio datrys y gŵyn, ac unrhyw faterion cefndir.
- Darparu cyfle i'r achwynydd wneud datganiad yn bersonol neu'n ysgrifenedig i'r panel, a galw tystiolaeth yn ymwneud â'i gŵyn.

Gall y panel a'r achwynydd alw tystion.

Mae gan y Panel 25 diwrnod gwaith o'r dyddiad y cafodd y gŵyn ei **harwyddo** i hysbysu'r achwynydd o'u canfyddiadau.

Penderfyniad y Panel

Bydd y Panel Cwynion yn penderfynu ar y canlynol:

- P'un a oedd y broses a ddilynwyd yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol o dan Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cyfrolau 2 a 3 ar Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion;
- P'un a oedd y penderfyniad sy'n destun y gŵyn yn rhesymol yn sgil cydymffurfio â'r canllawiau statudol yn iawn;

- P'un a oedd y penderfyniad sy'n destun y gŵyn yn dilyn yn rhesymol o'r wybodaeth a oedd ar gael i gyfarfod gwreiddiol yr Is-Grŵp neu'r Panel Adolygu Ymarfer Plant/Adolygu Ymarfer Oedolion.

Bydd y Rheolwr Busnes yn ysgrifennu at yr achwynydd yn ei hysbysu o benderfyniad y panel. Anfonir copïau o'r llythyr at:

- Y plentyn/oedolyn sy'n wynebu risg, os yw'n briodol
- Unrhyw unigolyn arall sydd â chyfrifoldeb rhoi gofal, os yw'n briodol
- Cyd-Gadeirydd Bwrdd Diogelu Cwm Taf
- Cadeirydd yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Plant/Oedolion perthnasol
- Cadeirydd y panel Adolygu Ymarfer Plant/Adolygu Ymarfer Oedolion, os yw'n briodol
- Unrhyw unigolyn perthnasol arall sy'n gysylltiedig â'r achos a nodir gan y Panel

Gall y Panel Cwynion argymhell bod cyfarfod gwreiddiol yr Is-Grŵp neu'r Panel Adolygu Ymarfer Plant/Adolygu Ymarfer Oedolion yn cael ei ailgynnull er mwyn ystyried canfyddiadau'r Panel. Gellir enwebu Cadeirydd gwahanol ac ailgynnull y cyfarfod cyn pen 15 diwrnod gwaith o benderfyniad y panel.

Os yw unrhyw ran o'r gŵyn yn cael ei chadarnhau bydd y Panel Cwynion yn cyfeirio'i argymhellion i'r cyfarfod sydd wedi'i ailgynnull. Bydd y penderfyniad gwreiddiol yn aros yn weithredol hyd nes y cynhelir y cyfarfod sy'n cael ei ailgynnull.

Mewn rhai achosion, gall achwynwyr godi pryderon ynghylch asiantaethau unigol yn ystod cyfarfod y Panel; pe bai hyn yn digwydd a bod y wybodaeth a ddarparwyd yn codi pryderon ynghylch ansawdd ymarfer o fewn yr asiantaeth honno, bydd Cadeirydd y Panel yn trafod y rhain gydag uwch reolwr dynodedig yr asiantaeth dan sylw ar unwaith yn dilyn cyfarfod y Panel.

CWYNION HEB EU DATRYS

Y Panel Cwynion Rhyngasiantaeth yw cam olaf Gweithdrefn Gwyno'r Bwrdd Diogelu. Os yw'r achwynydd yn anfodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'r gŵyn, neu'n anfodlon â'r canlyniad, gall gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203 Ffacs: (01656) 641199

ADRODD

Bydd nifer y cwynion a ddatrysir yng Ngham 1 y Cyfarfodydd neu Gynadleddau Amddiffyn Plant neu Oedolion yn cael eu hadrodd gan y Rheolwr Amddiffyn Plant/Oedolion i'r Grŵp Sicrhau Ansawdd Plant neu Oedolion perthnasol.

Bydd gwybodaeth ynglŷn â chwynion a wneir o dan Gam 2 y Cyfarfodydd neu Gynadleddau Amddiffyn Plant neu Oedolion yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Sicrhau

Ansawdd Plant neu Oedolion perthnasol gan Reolwr Busnes Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.

Bydd yr holl gŵynion yn ymwneud â'r broses Adolygu Ymarfer Oedolion neu Blant yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Sicrhau Ansawdd Plant neu Oedolion perthnasol gan Reolwr Busnes Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.

Atodiad 1 - Ffurflen Gwyno Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg

Enw'r unigolyn dan sylw:	
Cyfeiriad:	
Dyddiad y cyfarfod (os yw'n berthnasol):	
Cadeirydd y cyfarfod (os yw'n berthnasol):	
Enw'r unigolyn sy'n gwneud y gŵyn	
Perthynas â'r unigolyn uchod:	
Cyfeiriad:	
Rhif ffôn:	
Cyfeiriad e-bost:	

Rhowch fanylion eich cwyn isod (parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen):

--

Llofnodwyd:

Dyddiad:

Anfonwch yn ôl at:

Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg
Uned Fusnes
Tŷ Catrin, Uned 1, Maritime Industrial Estate
Maesycoed
Pontypridd, CF37 1NY